**Adroddiad Swyddog**

Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

- Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad llynedd, rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddechrau paratoi seremoni wobrwyo eleni.
- Mae'r cynlluniau yn eu camau cyntaf ond byddwn ni'n cynnal cyfarfod ddydd Mercher i roi cynlluniau ar waith

Cynrychiolaeth Academaidd

- Mae gennym gynlluniau cyffrous o ran cynrychiolaeth academaidd
- Yr hyn sy'n bwysig yw ein bod ni'n datblygu rhaglen ddatblygu ar gyfer cynrychiolwyr a myfyrwyr yn gyffredinol gyda sesiynau mae myfyrwyr wedi bod yn gofyn amdanynt, fel "Sut i: Cyfarfodydd"
- Rydyn ni bellach wedi dechrau anfon e-byst dwywaith yr wythnos i gadw cynrychiolwyr academaidd yn gyfoes â'r hyn sy'n digwydd
- Rydyn ni wrthi'n adolygu strwythur y cynrychiolwyr athrofa
- Credwn ni mai myfyrwyr sydd yn y sefyllfa orau i roi beirniadaeth adeiladol ar eu bywyd yn y brifysgol ac rydyn ni am sicrhau cewch chi'r grym i wneud hynny

Adroddiad ar Gyrhaeddiad mewn Addysg Uwch

- Ar ôl gweithio gyda Lauren a gwasanaeth gyrfaoedd y brifysgol, mae'r ystod o weithgareddau sydd bellach yn rhan o AGAU Prifysgol Aber wedi cynyddu'n sylweddol
- Gwaith Lauren yw'r prif reswm dros hyn a byddwn ni'n parhau i weithio'n agos ar yr AGAU i barhau â'r datblygiad hyfryd hwn

Amgylchiadau Arbennig ac Arferion Academaidd Annerbyniol

- Rydyn ni'n gwneud gwaith mewnol i adolygu ein gwasanaeth cynghori a'n darpariaeth
- Gobeithio yn y misoedd nesaf bydd gennym ni wasanaeth haws ei gyrchu sydd â rhagor o wybodaeth ddefnyddiol ar-lein

Dirwyon y Llyfrgell

- Dwi wrthi'n gweithio gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth i greu system lle mae modd i ni leddfu effaith dirwyon y llyfrgell. Mae ambell i fodel ar y gweill a gobeithio bydd modd i mi roi'r diweddaraf ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol

Y cyfan dwi eisiau am y Nadolig yw

- Rydyn ni'n cynnal ymgyrch rhwng nawr a diwedd y tymor sy'n gofyn i fyfyrwyr beth hoffen nhw am y Nadolig a fydd yn gwneud i'w profiad academaidd fod yn wych
- Bydd cardiau Nadolig o gwmpas y campws o ddydd Mercher ymlaen a bydd gennym ni ffurflen ar-lein – Rhowch wybod eich barn i ni a bydda i a John Grattan yn gweithio gyda'n gilydd ar yr ymatebion ar ôl y gwyliau

Rydych chi'n wych

- Byddwn ni'n lansio system wobrwyo gydag arddull gwerila o'r enw “Rydych chi'n wych” yn y flwyddyn newydd.
- Rydyn ni'n gofyn i fyfyrwyr i ddweud wrthym ni pan fyddan nhw wedi cael profiad gwych, boed hwnnw gyda darlithydd, cynrychiolydd myfyrwyr, aelod o'r staff cymorth neu rywun arall yn y brifysgol
- Bydd gennym ni banel misol lle byddwn ni'n penderfynu ar y gwobrau – cadwch lygad allan am ragor o fanylion yn y flwyddyn newydd

<u>Adfent Amgen</u>

- Rydyn ni'n cynnal casgliad calendr adfent amgen a bydd yr holl roddion yn mynd i Stordy'r Jiwbilî ym Mhenparcau
- Bydd pob rhodd yn cael ei derbyn yn enwedig y pethau canlynol:
    - Eitemau mewn tun fel cig, llysiau, cawliau, ffrwythau, pwdinau/cwstard
    - Eitemau mewn jar fel jam, sawsiau ayyb
    - Tatws parod, pasta, reis, nwdls, grawnfwyd, te, siwgr, sudd ffrwythau,
    - Cynnyrch iechydol fel papur tŷ bach, cewynnau, hancesi papur, bwyd cathod/cŵn, tywelion misglwyf, brwsys dannedd, past dannedd ayyb
    - Yn y bôn unrhyw beth rydych chi'n ei ddefnyddio bob dydd
    - Os oes dyddiad defnyddio erbyn, sicrhewch ei fod tua 3 mis o nawr